# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYSAG**

Dyddiad ac Amser

**3.30 y.h., DYDD MAWRTH, 2AIL GORFFENNAF, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

NODER

*Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni*

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# CYSAG

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (5)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Menna Baines | Meryl Roberts | Paul John Rowlinson |
| Elin Walker Jones | Jina Gwyrfai | |

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anne Lloyd-Jones | John Pughe Roberts |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor –

### Cristnogol a Chrefyddau Eraill ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol

| | |
|---|---|
| Natham Abrams | Judaism |
| Mr Mohamed Arabi | Islam |
| Eurfryn Davies | Undeb Bedyddwyr Cymru |
| Bethan Davies Jones | Union of Welsh Independents |
| Edward Parri-Jones | Dyneiddiwr |
| Eirian Bradley Roberts | Yr Eglwys Gatholig |
| Dr Sibani Roy | Hinduism |
| Rev. Nick Sissons | Yr Eglwys Fethodistaidd |
| Patrycja Bielak Smith | Bwdhaeth |
| Gwawr Maelor Williams | Eglwys Bresbyteraidd Cymru |
| Naomi Wood | Yr Eglwys yng Nghymru |

### Athrawon

| | |
|---|---|
| Miriam A. Amlyn | NAS/UWT |
| Heledd Jones | NEU |
| Emma Roberts | UCAC |
| Vacant Seat - NAHT | NAHT |

### Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Eleri Moss | Secondary Heads |

# R H A G L E N

## 1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL

## 2. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2024-2025.

## 3. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2024-2025.

## 4. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 6. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 7. COFNODION — 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwna gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2023 fel rhai cywir.

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG GWYNEDD 2022/23 — 9 - 20

I gysidro Adroddiad blynyddol CYSAG Gwynedd 2022/23.

## 9. PROSIECT LLAN — 21 - 30

I dderbyn cyflwyniad llafar gan Nia Roberts (Swyddog Ymgysylltu Pererindodau Ysgolion) ar 'Brosiect Llan'.

## 10. CYMDEITHAS HANES IDDWEIG DE CYMRU

I dderbyn cyflwyniad llafar gan Klavdja Erzen (Rheolwr Rhaglen a Phrosiect) am Adnoddau dwyieithog i addysgu am yr Holocaust.

## 11. GOHEBIAETH — 31 - 44

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 21/11/2023

**Presenoldeb :**

**Y Cynghorwyr :** Menna Baines, Elin Walker Jones, Anne Lloyd-Jones, John P Roberts, Meryl Roberts, Angela Russell a Paul Rowlinson

**Eraill:**

**Cristnogol a Chrefyddau Eraill ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol :** Eurfryn Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru) a'r Parchedig Nick Sissons (Yr Eglwys Fethodistaidd)

**Athrawon :** Heledd W Jones (NEU), Eleri Moss (Cynrychiolydd Penaethiaid) ac Emma Roberts (UCAC)

**Swyddogion** : Einir Rh Davies a M Eirian Roberts (Swyddogion Cefnogi Aelodau), B Mair Huws (Swyddog Adnoddau Cynorthwyol a Chlerc CYSAG) a'r Cyfieithwyr

## 1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Y Cynghorydd Paul Rowlinson a chyfle am fyfyrdod tawel.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Beca Brown, Nathan Abrams, Bethan Davies Jones, Siôn Huws, Edward Parry-Jones a Gwawr M Williams a daeth ymddiheuriad hwyr i law gan Eirian Bradley Roberts

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf, 2023, fel rhai cywir a bu i'r Cadeirydd eu llofnodi.

## 6. DIWEDDARIADAU O GYFARFODYDD CYSAG BLAENOROL

Diweddariadau Gwynedd o Ran :
i. Adroddiad Blynyddol CYSAG 2021 - 2022
ii. Cefnogaeth Arbenigol i'r CYSAG
iii. Gohebiaeth a anfonwyd ar ran CYSAG

i. Adroddiad Blynyddol CYSAG 2021-2022
Cadarnhawyd bod y newidiadau a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol wedi eu cwblhau ac y bydd y gwaith ar Adroddiad Blynyddol CYSAG 2022-2023 yn cael sylw maes o law.

ii. Cefnogaeth Arbenigol i'r CYSAG

Atgoffwyd pawb y bu i'r gefnogaeth arbenigol gan Swyddog GwE gael ei dynnu yn ôl yn 2018, ac o ganlyniad nad oedd arbenigedd ar y Pwyllgor ers hynny, oedd wedi profi yn rhwystredig. Cadarnhawyd fod y Pennaeth Addysg ar y pryd wedi bod mewn trafodaethau gyda GwE i adfer y gefnogaeth a chadarnhawyd y bydd Bethan James yn cefnogi o hyn ymlaen. Adroddwyd na fydd y gefnogaeth ar yr un lefel ag a oedd yn flaenorol, ond y bydd Bethan James yn mynychu cyfarfodydd CYSAG ac yn rhoi hanner diwrnod o gefnogaeth, ac fel man cychwyn y bydd yn rhoi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf.

iii. Gohebiaeth a anfonwyd ar ran CYSAG

Yn y cyfarfod blaenorol cytunwyd i ysgrifennu at GwE i ofn am eglurder ar rôl GwE ond cadarnhawyd nad anfonwyd y llythyr, ac yn hytrach na hyn bydd Bethan James yn rhoi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf ar y gefnogaeth mae GwE yn ei rhoi yn y maes dysgu yma.
Yn y cyfarfod blaenorol hefyd, cytunwyd i lythyru CBAC a Llywodraeth Cymru yn gofyn iddynt wneud yn siŵr eu bod yn darparu Adnoddau Cymraeg; eto nodwyd bod llythyr wedi ei ddrafftio ond nad oedd wedi ei anfon.

**PENDERFYNWYD**: Derbyn y diweddariadau uchod gan edrych ymlaen at groesawu Bethan James i'w rôl newydd gyda CYSAG.

## 7. DIWEDDARIAD AR Y GWAITH O DDATBLYGU Y CANLLAWIAU ADDOLI AR Y CYD

Atgoffwyd pawb o gefndir y sefylla ble gofynnwyd am enwebiadau rhai misoedd ôl erbyn hyn, i edrych ar y canllawiau presennol gan eu bod wedi dyddio. 'Roedd pawb yn cytuno eu bod yn anaddas erbyn hyn, ac o ganlyniad cynigiodd Y Parchedig Nick Sissons a'r Cynghorydd Elin Walker Jones edrych ar y Canllawiau presennol.

Adroddodd Y Parchedig Sissons, ar ôl edrych ar y canllawiau presennol, ei bod wedi dod yn amlwg faint o waith oedd ei angen, ac awgrymodd nad oedd gwerth mewn mynd drwy'r ddogfen bresennol a'i haddasu gan fod materion ehangach angen sylw, yn enwedig yr angen i adolygu'r ddeddfwriaeth ar addoli ar y cyd. Tybed a oedd unrhyw un yn ymwybodol beth oedd yr ysgolion yn ei wneud ar hyn o bryd? Roedd y Parchedig Sissons yn teimlo bod rôl yma i'r Eglwysi arwain ar y gwaith gan fod gwir angen dogfen fwy addas erbyn hyn.

Cyfeiriodd at y papur ble roedd 4 opsiwn wedi ei gynnig sef

Opsiwn 1: Gwneud dim
Opsiwn 2: Addasu y Polisi presennol
Opsiwn 3: Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn iddynt gymryd y mater o Addoli ar y Cyd neu gynulliad o ddifri, ac adolygu'r ddeddfwriaeth fel mater brys.
Opsiwn 4: Cyfaddawd? Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a chreu polisi newydd sydd yn ystyried anghenion iechyd meddwl, ysbrydol a moesol plant a phobl ifanc o ddifri. Polisi sy'n cael ei ysgrifennu gan y rhai sy'n ymgymryd â'r gwaith yma o fewn ysgolion yn rheolaidd : Polisi sydd yn rhoi gwerth ar gymuned ysgol-gyfan.

Nododd Y Parchedig Sissons y bydd y sefyllfa yn parhau i fod yn ofidus nes bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei newid, a nododd ei bryder bod cyd-addoli yn fater rhy bwysig i'w adael ar yr ochr.

Ehangodd Y Cynghorydd Walker Jones ar yr uchod gan nodi bod cyfle yn cael ei golli i gyfarch y mater o gyd-addoli ac na fyddai addasu'r ddogfen bresennol yn unig yn cyfarch y mater.

Adroddodd ei phryder hefyd ei bod yn ymddangos nad yw Llywodraeth Cymru nac ESTYN yn cymryd y mater o ddifrif, ac o ganlyniad bod angen i CYSAG wneud rhywbeth ar fyrder er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa.

Diolchwyd i'r Parchedig Nick Sissons a'r Cynghorydd Elin Walker Jones am eu gwaith yn mynd at wraidd y mater ac agorwyd y llawr i sylwadau.

Nodwyd pryder nad oedd yn hollol glir beth oedd yn digwydd mewn ysgolion ar hyn o bryd a chwestiynwyd paham nad oedd adroddiadau ESTYN yn dod i sylw CYSAG erbyn hyn? Cadarnhaodd y Swyddog Adnoddau Cynorthwyol a Chlerc CYSAG bod ffurf adroddiadau ESTYN yn wahanol erbyn hyn, gyda ychydig iawn o gyfeiriad at gyd-addoli.

Nodwyd yr ymdeimlad ei bod yn ddyletswydd ar Aelodau CYSAG i fonitro beth sydd yn digwydd yn yr ysgolion, ond cwestiynwyd a yw derbyn gwahoddiad i fynd i wasanaeth mewn ysgol yn golygu bod gwasanaeth yn cael ei gynnal yn rheolaidd mewn gwirionedd?

Adroddwyd bod ysgolion yn gwneud ceisiadau am gopi o'r canllawiau, felly mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i'w gwneud yn addas i bwrpas ac awgrymwyd efallai bod angen gofyn i CYSAGauC godi'r mater gyda'r holl GYSAGau, gan edrych arno yn genedlaethol.  Yn ychwanegol, nodwyd y byddai yn rhaid i unrhyw newidiadau gael eu gwneud gan unigolion sydd yn hyddysg yn y maes.

Nodwyd pwysigrwydd dod â phlant at ei gilydd a bod angen rhoi llawer o ystyriaeth i wneud y dasg yn dda, gan efallai gynnig rhywbeth creadigol, yn enwedig o nodi'r sylwadau bod diffyg gofod mewn rhai ysgolion a bod cyfle yn cael ei golli yma i ymgynnull.

Cymerwyd y cyfle i holi arbenigwyr o'r maes addysg am eu profiadau hwy a nododd un bod gwasanaeth i wahanol flwyddyn ysgol yn cael ei gynnal bob wythnos, gan gyfuno blynyddoedd pan fo modd, ond ei fod yn her cael y plant i gyd i mewn i'r Neuadd.  Nodwyd bod manteision i gyd-addoli ond bod COVID wedi cael effaith negyddol ar sgiliau gwrando a chanolbwyntio plant. Ychwanegwyd at hyn gan nodi bod angen i blant weld gwerth mewn cyd-addoli.  O ran cael pawb i'r Neuadd ar yr un pryd, nodwyd bod rhai ysgolion â niferoedd uchel o blant mewn rhai blynyddoedd ac mai cyd-addoli blwyddyn ar y tro yw'r unig opsiwn.  Cyfeiriwyd at drefn 'Munud i Feddwl' ble mae sleid yn cael ei gosod ar y bwrdd gwyn yn yr ystafell gofrestru gan roi cyfle i ddisgyblion fyfyrio ar yr hyn sydd arni yn ystod yr amser cofrestru.

'Roedd nifer o'r Aelodau yn awyddus i fynd â'r mater ymhellach, megis trafod gyda chyrff cenedlaethol yr holl eglwysi yng Nghymru, ei godi gyda CCYSAGauC, disgwyl am newid mewn deddfwriaeth drwy Lywodraeth Cymru a holi ysgolion unigol, ond nodwyr pryder o ran arafwch yr amserlen gyda rhai o'r opsiynau, a'r ymdeimlad bod angen gwneud rhywbeth ar fyrder.

Diolchwyd am y cynigion uchod, gan nodi efallai bod opsiynau eraill, ond beth bynnag oedd yr opsiwn gorau, roedd ymdeimlad bod angen rhywbeth mwy defnyddiol na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD:** Derbyn yr adroddiad a chynnig Y Parchedig Nick Sissons ein bod fel CYSAG yn ysgrifennu llythyr at CCYSAGauC a chyrff cenedlaethol yr holl eglwysi yng Nghymru i holi sut fyddai modd iddynt fod o gymorth i symud y mater yn ei flaen. Cytunodd y Parchedig Sissons i ddrafftio'r llythyr.

**8. MATERION CCYSAGauC**

I. Adroddiad am Weithgareddau y Gymdeithasfa : Cadeirydd
II. Adroddiad ar Gyfer y Flwyddyn Ariannol 2022/2023 : Trysorydd
III. Aelodaeth Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC 2023/ 2024
IV. Cofnodion Drafft Cyfarfod CCYSAGauC Tymor yr Haf a Gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2023
V. Cyfle i roi barn ar yr ymgynghoriad ar y cymhwyster newydd arfaethedig, Astudiaethau Crefyddol TGAU (dechrau dysgu 2026) (ar wefan CBAC)
VI. Cyfle i gyfrannu at lunio rhaglen gyffrous ar gyfer Cynhadledd 2024 a fydd yn cynnwys seminarau rhyngweithiol ar-lein rhad ac am ddim, yn ogystal â digwyddiad diwrnod y gynhadledd gorfforol.

Cyfeiriwyd at yr uchod oedd wedi eu rhannu er gwybodaeth, a chymerwyd y cyfle i rannu diweddariadau o gyfarfod diwethaf y CCYSAGauC fel a ganlyn :
Data Ysgolion – codwyd y pryder nad oedd y data arferol ar gael, ond cafwyd cadarnhad y byddai mwy o ddata ar gael, gyda rhybudd iechyd nad oedd i'w ddefnyddio i wneud cymhariaethau.
Cyfeiriwyd at yr Adnoddau Dysgu Cenedlaethol gan dynnu sylw penodol at y modiwl Llywodraethwyr a gofynnwyd i'r Adnoddau gael eu hybu.
Cadarnhawyd y bydd cyd-addoli yn destun yn y Gynhadledd Flynyddol 2024

Tynnwyd sylw at yr Ymgynghoriad ar y cymhwyster newydd arfaethedig gan nodi ei bod yn hynod bwysig i athrawon yn benodol gymryd y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad.

Nodwyd bod y cwestiwn ynglŷn â Dysgu CA4 angen ystyriaeth, a chymerwyd y cyfle i gadarnhau y bydd yn cael ei asesu yn ffurfiol.

**PENDERFYNWYD:** Derbyn yr ohebiaeth gan CCYSAGauC a'r diweddariadau perthnasol.

Diolchwyd i bawb am eu sylwadau

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30 p.m. a daeth i ben am 16:35 p.m.

**CADEIRYDD**

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

DRAFFT

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Gwynedd
# Medi 2022 – Awst 2023

Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Garem Jackson

**CYNNWYS**

**ADRAN 1:  CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1  Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Y Cynghorydd Menna Baines

**ADRAN 2:  CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD**

2.1  Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2  Y Maes Llafur Cytûn
2.3  Pa mor dda yw safonau?
2.4  Ymateb yr Awdurdod Lleol
2.5  Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6  Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7  Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3:  ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG     Gwynedd  2022 - 2023
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.5 Arweiniad CYSAG Gwynedd i aelodau sy'n mynychu sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion

DRAFFT

## ADRAN 1:
## CRYNODEB GWEITHREDOL

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Mae'n deg dweud bod rhai ffactorau y tu allan i'n rheolaeth wedi ei gwneud hi'n anodd inni gyflawni ein dyletswyddau yn ystod y flwyddyn hon.

Mae'r cyd-destun ar gyfer un o'n prif ddyletswyddau, sef monitro safonau o fewn ysgolion Gwynedd, wedi newid yn ddiweddar. Yn sgil Covid daeth adolygiadau ESTYN o ysgolion i ben dros dro (tan fis Mai 2022), ac ers hynny cyflwynwyd dull arolygu newydd. Mae natur adroddiadau arolygu ESTYN bellach yn ei gwneud hi'n fwy anodd i CYSAG fonitro safonau ac nid yw'r hen ddull o ofyn am hunan-arfarniadau ar ffurf holiadur yn addas. Clywsom hefyd fod gwaith yn digwydd ar lefel genedlaethol i sefydlu systemau adrodd ac arfarnu i ysgolion sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm Newydd i Gymru. Yn wyneb ein hansicrwydd o ran sut y gallwn barhau i fonitro safonau yn sgil newidiadau fel hyn, roedd hi'n briodol ein bod yn gofyn am arweiniad gan y corff cenedlaethol, CCYSAGauC.

O ran prif ddyletswydd arall CYSAG, sef ymgynghori ar addoli mewn ysgolion,
bu cyfle i edrych ar y 'Canllawiau Addoli ar y Cyd'. Cytunwyd bod mawr angen diweddaru'r ddogfen er mwyn cywiro anghydbwysedd rhwng y crefyddau y mae'n cyfeirio atynt ac o ran sylwadau a geirfa er mwyn gwneud y ddogfen yn fwy cynhwysol. Da yw adrodd bod gwaith i'r cyfeiriad hwnnw bellach ar y gweill, diolch i barodrwydd dau o'r aelodau i edrych yn fanylach ar y ddogfen fel man cychwyn.

Testun siom oedd bod oedi wedi bod cyn gallu rhyddhau'r maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm Newydd i Gymru i ysgolion y sir. Roedd hyn yn sgil yr angen a ddaeth i'r amlwg i'r Cabinet ei gymeradwyo yn gyntaf. Er i'r ddau faes llafur gael eu hargymell gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ganol Chwefror 2022, roedd angen aros tan dymor fis Hydref y flwyddyn honno i gael sêl bendith y Cabinet arnynt ac roedd hynny'n golygu bod nifer o ysgolion yn dechrau'r tymor newydd heb arweiniad. Nodwyd ymddiheuriad yr awdurdod am yr oedi hwn a da oedd gallu cymeradwyo'r maes llafur cytunedig yn y man, wedi i'r Cabinet ei fabwysiadu.

Bu trafodaeth ar aelodaeth CYSAG Gwynedd gan fod nifer o seddi gwag arno. Roedd y pwyllgor yn awyddus iawn i barhau â gwaith da a wnaed yn flaenorol i geisio helaethu'r aelodaeth a'i gwneud yn fwy cynrychioladol o ran crefyddau, enwadau a'r undebau athrawon.

Pryder arall oedd yn parhau eleni oedd y diffyg cefnogaeth arbenigol i CYSAG ers i gefnogaeth GwE gael ei thynnu'n ôl yn 2018, ond croesawyd ymdrechion y swyddogion i geisio gwneud trefniant amgen.

Er gwaethaf yr holl heriau, rwy'n ddiolchgar iawn i aelodau CYSAG Gwynedd am eu hamser a'u hymroddiad i'r pwyllgor. Hoffwn ddiolch hefyd i athrawon Addysg Grefyddol y sir am eu hymroddiad hwythau wrth gyflwyno'r pwnc mewn cyfnod o newid cwricwlaidd mawr.

**Y Cynghorydd Menna Baines**
**Cadeirydd CYSAG Gwynedd, 2022/2023**

DRAFT

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Roedd CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda*'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

Yn sgil dyfodiad Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2022 a sefydlu'r Gwricwlwm i Gymru, cynhaliwyd Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Gwynedd ar y 15fed o Chwefror 2022. Penderfyniad unfrydol y Gynhadledd oedd argymell i Gyngor Gwynedd fabwysiadu Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel ei fod yn weithredol o Fedi 2022.

Ar y 13 o Fedi 2022 cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd argymhelliad y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig a mabwysiadwyd Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel Maes Llafur Cytunedig ar gyfer ysgolion Gwynedd.

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Yn y gorffennol, bu CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol.
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd.

#### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Yng nghyfarfod **CYSAG Gwynedd** ar 9 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau. Mae CYSAG Gwynedd, penaethiaid, ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templedi a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu ESTYN (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Gwynedd, sy'n swyddog adnoddau addysg cynorthwyol gyda Chyngor Gwynedd, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Gofynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol. Oherwydd sefyllfa COVID-19 fe ddaeth ymweliadau ESTYN i ben yn ystod Mawrth 2020 ac ni gynhaliwyd unrhyw ymweliad yn ystod y flwyddyn o Medi 2020 hyd Awst 2022. O Fedi 2021 hyd Awst 2023 ni fu ESTYN yn ymgymryd â rhaglen arolygu lawn, rhai ysgolion yn unig a wirfoddolodd i beilota trefniadau arolygu diwygiedig. O'r herwydd ni gyhoeddwyd unrhyw adroddiadau arolygu ar gyfer ysgolion unigol yn ystod y flwyddyn. Ni ofynnwyd i ysgolion Gwynedd ddarparu hunan-arfarniadau yn sgil hyn.



DRAFT

### 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

Ni thrafodwyd asesiadau athrawon disgyblion CA3 na chanlyniadau arholiadau allanol CA4 a CA5 yn ystod cyfarfodydd 2022-2023.

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mair Huws, Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol Gwynedd yn sicrhau bod arweiniad ac argymhellion CYSAG Gwynedd yn cael eu trosglwyddo i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd ac i Gyngor Gwynedd.

Hyd at Ebrill 2018, roedd Cyngor Gwynedd yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAG Gwynedd ac i gynrychioli CYSAG Gwynedd mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol. Ym mis Mawrth 2018, hysbyswyd clerc CYSAG Gwynedd na fyddai GwE yn cefnogi CYSAG Gwynedd bellach.

Bu'r flwyddyn o Fedi 2022 – Awst 2023 yn un lle parhawyd ar y gwaith o ail-adeiladu yn sgil yr argyfwng COVID-19. Bu hefyd yn flwyddyn lle bu  i ysgolion weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn statudol o Fedi 2022 a Medi 2023 yn achos rhai ysgolion Uwchradd. Mae addysg felly yn parhau i fod ynghanol cyfnod o newid mawr, a wnaeth hi'n amhosibl monitro safonau o fewn Addysg grefyddol yn ystod y flwyddyn.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod CYSAG Gwynedd yn derbyn y gefnogaeth ac arweiniad strategol priodol er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel pwyllgor statudol.

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a  3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau:  Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012  (http://cbac.co.uk )

**Cwricwlwm i Gymru**

- Yn ystod 2014-15, comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.
- Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cael ei chynrychioli ar y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Llywodraeth Cymru ac mae Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi mynychu cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn gyda chynrychiolwyr o Adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru wrth iddynt gefnogi'r ysgolion arloesol a datblygu Cwricwlwm i Gymru.
- Bu gwaith ymgynghori cynhwysfawr ar y Canllawiau o fis Mawrth 2020 ymlaen ac fe fu    Cymdeithas CYSAGauCymru yn ran annatod o'u creu. Ffrwyth llafur yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yw'r canllaw a gyhoeddwyd bellach gan Lywodraeth Cymru.
- Sefydlodd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2022 y Cwricwlwm i Gymru o dan y gyfraith, gan  ddisodli'r cwricwlwm sylfaenol (sy'n cynnwys, er enghraifft, y cwricwla cenedlaethol a lleol a nodir yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002).
- Mae'r Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2022 yn nodi pedwar diben y cwricwlwm o dan y gyfraith. Mae hefyd yn nodi elfennau mandadol (gan cynnwys crefydd, gwerthoedd a moeseg fel un ohonynt) sy'n rhychwantu continwwm dysgu 3 i 16 oed.
- Daeth y Cwricwlwm i Gymru i rym mewn Ysgolion Cynradd ar y 1/09/2023 ac mae Ysgolion Uwchradd yn gweithio tuag at ei weithredu o Medi 2023 ymlaen (os nad ydynt yn ei weithredu eisoes)

- Mae'r *Canllawiau ar Grefydd,Gwerthoedd a Moeseg* ym Maes y Dyniaethau yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 y Ddeddf, a bwriedir iddynt helpu'r rhai sy'n gyfrifol o fewn y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Gwynedd yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017)
- Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Mehefin 2018)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod ysgolion ac athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau’r arolygiadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai’r Awdurdod Addysg weithio gyda’i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o’r fath.

Rhaid i’r addoliad fod “yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad”. Mae’r weithdrefn “penderfynu” yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu’r cyfan o’r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
  - ‘Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol’ (ESTYN, Hydref 2017);
  - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).

- Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Ni dderbyniwyd unrhyw hunan arfarniad yn ystod 2022-2023 gan na ofynnwyd i unrhyw ysgol ei ddarparu.

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â’r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Gwynedd i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.

## ADRAN 3:  ATODIADAU

### 3.1  Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Gwynedd yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

DRAFFT

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2022-23

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | *Disgwyl enwebiad* |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Elizabeth Roberts |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Dr. W Gwyn Lewis |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Anest Grey Frazer |
| Undeb yr Annibynwyr | Cynrig Hughes |
| Yr Eglwys Babyddol | Eirian Bradley Roberts |
| Bwdaeth | Dashu (Scott Smith) |
| Dyneiddwyr | Edward Parri-Jones |

**Cynrychiolwyr Athrawon**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | Mrs Alwen Watkin (Ysgol Eifionydd) |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Mrs Catherine Davey (Ysgol Llanystumdwy) |
| Cymdeithas yr Ysgolfestri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | Mrs Miriam Amlyn (Ysgol Eifionydd) |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | Mrs Heledd Owen (Ysgol Friars) |
| Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL | *Disgwyl enwebiad* |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Paul Rowlinson | Plaid Cymru |
| Cynghorydd E Selwyn Griffiths | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Menna Baines | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Judith Humphreys | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Elin Walker | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Medwyn Hughes | Annibynnol |
| Cynghorydd Dewi Wyn Roberts | Annibynnol |
| Cynghorydd Mike Stevens | Annibynnol |

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

Gwyn Rhydderch
Parchedig Aled Davies

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Garem Jackson | Pennaeth Adran Addysg Gwynedd |
| Mair Huws | Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol |
| Einir Davies | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

DRAFT

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2022-23

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2022– 2023, cyfarfu CYSAG Gwynedd 3 gwaith trwy gyfrwng Zoom:

29 Tachwedd 2022
14 Mawrth 2023
4 Gorffennaf 2023

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rhain yn y cofnodion ac yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 29 Tachwedd 2022**

- Cafwyd Cyflwyniad i waith y CYSAG gan y cyn-Gadeirydd y Cynghorydd Paul Rowlinson ynghyd â derbyn papur trafod ar y ffordd ymlaen i'r CYSAG fonitro safonau perthnasol o fewn ysgolion Gwynedd. Penderfynwyd ysgrifennu ar CCYSAGauC am arweiniad.

**b) Cyfarfod 14 Mawrth 2023**

- Cafwyd diweddariad ynglŷn a Chynllun Cyngor Gwynedd mewn perthynas a'r Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Cymeradwywyd y Cynllun a chafwyd cadarnhad y byddai'n cael ei rannu'n derfynol ag ysgolion Gwynedd.
- Trafodwyd y Canllawiau presennol sydd gan yr Awdurdod ar gyfer Addoli ar y cyd. Cytunwyd bod angen eu diweddaru ac fe sefydlwyd gweithgor i fynd i'r afael â'r gwaith.

**c) Cyfarfod 4 Gorffennaf 2023**

- Ail-etholwyd y Cyng Menna Baines yn Gadeirydd
- Cafwyd diweddariad ar y gwaith o ail edrych ar y canllawiau Addoli ar y Cyd. Gan nad oedd digon wedi gwirfoddoli i fod ar y gweithgor cynigiodd y Parchedig Nick Sissons i edrych ar y canllawiau ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.
- Trafodwyd yr angen i gomisiynu cefnogaeth arbenigol I'r CYSAG a rhoddwyd sêl bendith i'r Pennaeth Addysg drafod y posibilrwydd o gomisiynu cefnogaeth arbenigol i'r CYSAG drwy GwE, gan symud y mater yn ei flaen cyn gynted â phosib

**3.3.1** Mae CYSAG Gwynedd wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Garem Jackson, Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Mair Huws, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol sy'n gweithredu fel clerc CYSAG
Einir Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd sy'n gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Gwynedd.

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

**3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG**

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
- Arweinydd y Cyngor
- Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Ysgolion Gwynedd

DRAFT

**Darperir copi hefyd i:**

- Aelodau CYSAG Gwynedd

## 3.4 Taflen gofnodi ar gyfer aelodau CYSAGau Gwynedd a Môn wrth iddynt fynychu sesiwn addoli ar y cyd

<u>**Cyngor Sefydlog ar Addysg Grefyddol**</u>

DRAFT

Mynychais sesiwn addoli ar y cyd mewn:
- ysgol arbennig ☐
- ysgol gynradd ☐
- ysgol uwchradd ☐

Mynychais sesiwn addoli ar y cyd:
- torfol/ysgol gyfan ☐
- dosbarth ☐
- cyfnod allweddol ☐

Yn cyfrannu i'r sesiwn addoli ar y cyd oedd:
- y pennaeth ☐
- disgyblion ☐
- athro/athrawon ☐
- arweinydd crefyddol lleol ☐
- rhiant/rhieni ☐
- llywodraethwr ☐

Roedd y sesiwn addoli ar y cyd wedi para:
- llai na 5 munud ☐
- rhwng 5-10 munud ☐
- rhwng 10-15 munud ☐
- dros 15 munud. ☐

Thema'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: ____________________________________________

Clywais:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Stori Feiblaidd | | Cyflwyniad gan oedolyn | |
| Stori o draddodiad crefyddol arall | | Cyflwyniad gan y disgyblion | |
| Stori foesol/cyfoes/hanesyddol addas | | Disgyblion yn myfyrio'n dawel mewn ymateb i ysgogiad | |
| Disgyblion yn gweddïo (yn unigol neu ar y cyd) | | | |
| Emyn /carol Cristnogol | | | |
| Cân addas | | | |

Tanlinellwch y tri datganiad gorau sy'n disgrifio'r sesiwn addoli ar y cyd.

Heddiw, roedd y sesiwn addoli ar y cyd yn:
- datblygu gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain;
- datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- trafod a hybu ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd, newid a marwolaeth;
- datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol ac yn gymunedol fel ei gilydd;
- hybu dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill naill ai yn lleol neu yn fyd-eang;
- cynyddu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd;
- meithrin y gallu dynol i wneud dewisiadau moesol er da neu er drwg;
- hybu gwerthoedd, ystyr a phwrpas a rennir;

- darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau ‘hapus’ a ‘thrist’ sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol a’r gymuned leol, ac i’w rhannu;
- ategu dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach
- datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang.

Unrhyw sylw arall

DRAFFT

DRAFT

Tud. 19

# Prosiect Llan

PERERIN

Swyddog Ymgysylltu Pererindodau Ysgolion

*Schools Pilgrimage Engagement Officer*

**Nia Elain Roberts**

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

Eitem 9

PERERIN

Prosiect sy'n eich gwahodd i gerdded llwybrau ysbrydol, archwilio eglwysi a darganfod treftadaeth ffydd yng Ngogledd Cymru

*A project that invites you to walk spiritual routes explore churches and discover faith heritage in North Wales*

Instagram @pererin_wyf

Tudalen Facebook

Gwefan i ddod yn fuan
Website coming soon www.pererin.com

Gwefan ysgolion yn cael ei datblygu
School website being developed www.pererinysgolion.cymru

Pererin
Llwybr Cadfan













Pererin
Cybi a Seiriol








outdooractive
Map
Route Finder
Route Planner
Travel Guide
Community
Routes → United Kingdom → North Wales → Llwybr Cadfan - Tywyn to Ynys Enlli
Share
Bookmark
My Map
Add comment
Focus Point
Photo: Llwybr Cadfan, Community
3D Preview
Porthmadog
Pwllheli
Harlech
Barmouth
THE ROUTE
DETAILS
TURN-BY-TURN DIRECTIONS
GETTING THERE
LITERATURE
CURRENT INFORMATION
Llwybr Cadfan Pilgrimage - 115mi/186km
Wander as a pilgrim through remote churches, ancient oak rainforests and vast beaches following the sixth century journey of St Cadfan from Tywyn to Ynys Enlli.
Distance 186.6 km
Duration 49:30 h
Ascent 2,830 m
Descent 2,831 m



<u>Swyddog Ymgysylltu Pererindodau Ysgolion</u>

Fy ngwaith i yw ysgogi athrawon i ddefnyddio'r thema pererindod o fewn eu gwaith dosbarth. Mae'r prosiect yn gweithio gyda pob ysgol, nid dim ond ysgolion eglwys sy'n newid cyfeiriad i'r hyn a fu yn yr Esgobaeth yn y gorffennol.

Rydym am i ddysgwyr wybod am bwysigrwydd Cristnogaeth yng nghyd-destun eu hanes lleol, yn gwybod am fodolaeth llwybrau'r saint, adeiladau a sefydlwyd ganddynt a'r straeon amdanynt.

Trwy weithdai, ymweliadau a phecynnau gwersi, byddwn yn rhoi cymorth i addysgu am effaith ysbrydol pererindod a hanes cyfoethog y seintiau, eglwysi, abatai a ffynhonnau o fewn Esgobaeth Bangor.












<u>Schools Pilgrimage Engagement Officer</u>

My work is to motivate teachers to use the theme of pilgrimage within classwork. The project is aimed at working with all schools, not just church schools which is a change in direction for the Diocese.

We want learners to know about the importance of Christianity in the context of their local history, to know about the existence of the paths of the saints, buildings they founded and their stories.

Through workshops, visits and lesson packs, we will help to teach about the spiritual impact of pilgrimage and about the rich history of the saints, churches, abbeys and wells within the Diocese of Bangor.



# Byddwn yn darparu cymorth cynllunio


## We will provide planning support






# Datblygu darpariaeth ehangach

## Develop wider provision



# Gwybodaeth CNIG, Crefydd Gwerthoedd a Moeseg– Lenses

# New Curriculum for Wales, RVE – Lenses

## Gwybodaeth Gwricwlaidd

### Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg: Lens: Cydberthynas a Chyfrifoldeb

**Cyfrifoldebau a Chydgysylltiad:**

- dechrau dod yn ymwybodol o gysylltiadau rhwng eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, y byd naturiol a phethau byw
- adnabod pam a sut mae pobl yn dangos cyfrifoldeb at bobl ac at leoedd y tu hwnt i'w cydberthnasau personol

**Lles, Hunaniaeth a Chynhwysiant:**

- dangos chwilfrydedd am fywydau pobl eraill.
- adnabod cysylltiadau rhwng gweithredoedd a hunaniaeth, gan gynnwys dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol

### Y Pedwar Diben

**Disgyblion egwyddorol, gwybodus:**
Yn gwybod am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol

**Dysgwyr uchelgeisiol:**
Yn datblygu corff o wybodaeth a sgiliau i'w gysylltu a'i gymhwyso at wahanol gyd-destunau

### Yr Hyn Sy'n Bwysig

**Dyniaethau**
Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.

**Iaith a Llythrennedd**
Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.
Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

### Camau Cynnydd

**Iaith a Llythrennedd**
*Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch*
CC3:Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad i ddeall testunau mwy cymhleth, a gallu ystyried dibynadwyedd ac effaith yr hyn yr wyf yn ei ddarllen.
CC4:Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad i ddeall testunau mwy cymhleth, a gallu ystyried dibynadwyedd ac effaith yr hyn yr wyf yn ei ddarllen.

***Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu***
CC3: Rwy'n gallu adnabod yr iaith briodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion gan amrywio fy mynegiant, geirfa a naws i ennyn diddordeb y gynulleidfa.
CC4: Rwy'n gallu dewis ac addasu'r iaith briodol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion, gan gyfleu ystyr yn effeithiol i'r gynulleidfa.

**Y Celfyddydau Mynegiannol**
*Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol*
CC3:Rwy'n gallu archwilio sut y gall gwaith creadigol gynrychioli, cofnodi, rhannu a dathlu hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol.
CC4:Rwy'n gallu archwilio gwaith creadigol gan ddeall y cyd-destun personol, cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol, gan gynnwys confensiynau'r cyfnod y cafodd y gwaith ei greu ynddo.

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar ddatblygu:

- pecynnau gwersi
- cyflwyniadau ar gyfer ysgolion
- prosiectau ar draws ysgolion e.e. prosiect stampiau
- gwefan ar gyfer athrawon
- pererindodau lleol i ysgolion
- darparu gweithdai ar safleoedd eglwysi
- adnodd ffilm Cybi a Seiriol
- llyfrau am seintiau lleol



We are currently working on developing:

- lesson packs
- presentations for schools
- projects across schools e.g. stamp project
- a website for teachers
- develop local pilgrimages for schools
- workshops on church sites
- a Cybi and Seiriol film resource
- books about local saints



PERERIN

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

Annwyl Feistri

Yn ein cyfarfodydd CYSAG diweddar rydym wedi bod yn edrych ar ddiweddaru'r canllawiau rydym yn eu cynnig i ysgolion yn y sir ynghylch Addoli ar y Cyd.

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae’r gofynion cyfreithiol presennol ar ysgolion o ran Addoli ar y Cyd yn anymarferol ac nid ydynt bellach yn adlewyrchu realiti bywyd o ddydd i ddydd yng Nghymru. Wrth i’r cwricwlwm ddod yn fwy cynhwysol a cheisio adlewyrchu bywyd fel y mae’r disgyblion yn ei fyw, mae’n dod yn fwy o frys, yn ein barn ni, i ailystyried y gyfraith ynghylch Addoli ar y Cyd.

Pan godwyd y mater hwn yn y blynyddoedd diwethaf gyda Llywodraeth Cymru, gan sefydliadau dyneiddiol fel arfer, ein dealltwriaeth ni yw y cafwyd ymateb llai na chalonogol a theimlwn yn gryf na fydd dim yn newid y math hwnnw o ymateb hyd nes y bydd yr eglwysi eu hunain yn gofyn am newid.

Mae'r gyfraith ar Addoli ar y Cyd mewn ysgolion yn breintio'r ffydd Gristnogol. Credwn, felly, ei bod yn ddyletswydd ar yr eglwysi eu hunain, fel ei phrif fuddiolwyr, i bwyso am newid, gan gydnabod na ellir goddef y sefyllfa bresennol a'i bod mewn gwirionedd yn arwain at lai o Addoli ar y Cyd mewn ysgolion yn hytrach na mwy, gan ei fod yn hysbys nad oes disgwyl i arolygiadau ymchwilio i berfformiad ysgol yn hyn o beth.

Fel CYSAG, sydd â’r cyfrifoldeb cyfreithiol i fonitro Addoli ar y Cyd mewn ysgolion, nid ydym yn awyddus i gau ein llygaid a dim ond stwna â’r arweiniad a roddwn i ysgolion o dan ein gofal, ond yn hytrach rydym yn awyddus i weld y gyfraith bresennol yn cael ei newid, i gynorthwyo pob ysgol i ymgysylltu o ddifrif â’u disgyblion trwy amseroedd addoli a myfyrio creadigol a meddylgar, y gellir eu hintegreiddio’n bragmatig i’r amserlen wythnosol. I ni mae hyn yn fater o gyfiawnder ac o iechyd meddwl a llesiant disgyblion.

Yr ydym felly yn ysgrifennu at holl arweinwyr eglwysi cenedlaethol Cymru i ofyn a yw newid i’r gyfraith ar Addoli ar y Cyd mewn ysgolion ar eu hagenda ac os nad ydyw, i’w hannog i ystyried gweithredu ar y cyd ag eglwysi eraill i unioni sefyllfa a adawyd i symud cymaint oddi wrth brofiadau ysgolion a phlant ers cyhyd.

Yn gywir,

**Y Cynghorydd Menna Baines**
**Cadeirydd CYSAG Gwynedd, 2022/2023**

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru

WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru***
***Sir Gaerfyrddin***
***cyfarfod rhithwir trwy Zoom***
***Dydd Mawrth 5 Mawrth 2024***
***10.30 am - 1.00 pm***

**Yn bresennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Arfon Wyn (AW)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Kathy Riddick (KR)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Edward Evans (EE)<br>Alice Parry (AP)<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br><br>**Caerdydd / *Caerdydd***<br>Donna Graves (DG)<br>Rheinallt Thomas (RT)<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Keith Evans (KE)<br>Jennifer Harding-Richards (JHR)<br>Gareth Morgan (GM)<br><br>**Ceredigion**<br>Rhianydd James (RJ)<br>MMC Morgan<br><br>**Conwy**<br>Roger Boon (RB)<br>Phil Lord (PL)<br>Nicholas Richter (NR) | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Jennie Downes (JD)<br>Phil Lord (PL)<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Vicky Barlow (VB)<br>Catherine McCormick (CM)<br><br>**Gwynedd**<br>Meryl Roberts (MR)<br>Eurfryn Davies (ED)<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tudful***<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Louise Brown (LB)<br>Rachel Buckler (RBU)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / Castell- *nedd a Port Talbot***<br>Nia Jenkins (NJ)<br>Rachel Samuel (RS)<br><br>**Casnewydd / *Casnewydd***<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br><br>**Powys**<br>John Mitson (JM) | **Rhondda Cynon Taf**<br>Mathew Maidment (MM)<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Torfaen**<br>Cyng Lucy Williams<br><br>**Bro Morgannwg / *Bro Morgannwg***<br>Donna Graves (DG)<br>Kathy Riddick (KR)<br>Tyler Saunders (TSA)<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Tania ap Siôn (TS)<br>Libby Jones ( LJ **)**<br>Hugh Jones (HJ)<br><br>**SACs to be confirmed?**<br><br>Ali Mahamad<br>Alison Harding<br>Amanda Davies<br>Delyth Jones<br>Michael Thomas<br>N Haran<br>Paul Davies<br>Owen SC<br>Ann | ***Sylwedyddion:***<br><br>**MAGC**<br>Paul Morgan (PM)<br><br>**CBAC**<br>Chris Owens (CO)<br><br>**Estyn**<br>Aranwen Morgans-Thomas (AMT)<br><br>**Yr Eglwys yng Nghymru**<br>Elizabeth Thomas (ET)<br><br>**Gwasanaeth Addysg Gatholig**<br>Angela Keller (AK)<br><br>**Cymwysterau Cymru**<br>Kate Russell (KRU)<br><br>**NAPfRE**<br>Phil Lord<br><br>**Cofnodion (o'r recordiad)**<br>Jo Nicholls (JNI)<br><br>**Cyfieithydd:** Sioned Jones |

DRAFT

**Cofnodion y cyfarfod**

**1. Cyflwyniad a chroeso**

Croesawodd TaS yr aelodau i gyfarfod y Gwanwyn a diolchodd i CYSAG/CYS Sir Gaerfyrddin a'r ALl am gynnal y cyfarfod.

Rhoddodd Gareth Morgan, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant groeso cynnes a diolchodd i CYSAG/CYSAG a CCYSAGC am drefnu'r cyfarfod.

Cyflwynodd GM y cyfarfod yn swyddogol gyda'r canlynol:

Mae Sir Gaerfyrddin yn cefnogi 27,000 o ddysgwyr mewn 108 o ysgolion a lleoliadau. Mae cefndir GM yn y sector cynradd, cyn-brifathro oedd yn arfer dysgu Addysg Grefyddol.

Gan fod y byd yn newid yn barhaus, gyda'r dioddefaint yn Gaza a'r rhyfel yn Wcrain, mae angen sicrhau bod addysg yng Nghymru yn parhau'n gyfoes ac yn berthnasol i ddinasyddion heddiw. Mae pob ysgol ar daith gyffrous gyda chwricwlwm sy'n berthnasol a lleol i gyflawni gofynion y cymunedau.

Mae hon yn dasg enfawr i sicrhau bod lle i bob agwedd ar y profiad dysgu, gan gynnwys CGM o fewn ei le haeddiannol yn y Dyniaethau.

CGM yw un o agweddau pwysicaf y cwricwlwm. Bydd CGM yn cyfoethogi'r cwricwlwm trwy wneud plant a phobl ifanc yn wybodus, yn ymwybodol ac yn parchu'r byd a'r bobl sydd ynddo. Mae'n faes pwysig i sicrhau bod dysgwyr yn gallu ymgysylltu ag ystod eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol er mwyn datblygu'n bobl egwyddorol. Mae gennym gyfrifoldeb fel pob ALl i gael maes llafur cytunedig yn ei le ar gyfer CGM a monitro hwn.

Diolchodd GM i GYSAG/CYS Sir Gaerfyrddin am eu gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau.

Lluniwyd y maes llafur i helpu athrawon ac i'w cefnogi gydag argymhellion a chanllawiau. Mae'n faes llafur hyblyg sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Rydym wedi nodi bod angen cymorth ac mae Sir Gaerfyrddin yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n cynnwys y gymuned Dysgu Proffesiynol ar MS Teams, sesiynau misol i athrawon a chyfarfodydd rhwydwaith bob tymor ar gyfer athrawon CGM uwchradd ynghyd ag ystod eang o adnoddau. Gobeithio y bydd hon yn sesiwn ddefnyddiol i rannu syniadau.

Diolchodd GM i bawb am fynychu.

Rhannodd Jennifer Harding Richard fideo o waith diweddar CYSAGau Sir Gaerfyrddin.

**2. Myfyrdod tawel**

Cyflwynodd TaS PL ac arweiniodd ef  fyfyrdod tawel i gofio a diolch am fywyd a gwaith Bethan James, cydweithiwr gwerthfawr o CCYSAGC a PYCAG a fydd yn cael ei cholli'n fawr.

PL: Roedd yn sioc fawr yn y flwyddyn newydd i glywed bod Bethan wedi marw. Roedd hi'n gydweithiwr gwych ac yn ffrind mawr i mi a llawer o ymarferwyr CGM eraill ledled Cymru. Roedd Bethan yn ymgorffori cariad o fewn addysg. Dangosodd ofal a charedigrwydd tuag at y disgyblion ac at yr athrawon. Pan oedd ysgolion i fod i gael ymweliad gan Estyn, byddai Bethan yn pobi cacennau ac yn rhoi anogaeth i staff yr ysgolion yr oedd yn gweithio gyda nhw. Roeddwn i'n meddwl bod Bethan yn ymgorfforiad o'r cariad y soniodd Steve Davis amdano beth amser yn ôl mewn cynhadledd yn Llandudno. Dywedodd mai'r un peth sydd ar goll yn y system addysg yw 'cariad'. Mae'n rhywbeth rwy'n ceisio ei efelychu yn fy ngwaith. Byddaf bob amser yn ei chofio am ddangos y cariad ymarferol hwnnw o fewn y system addysg, a rhywbeth yr wyf yn gobeithio sy'n byw'n hir yn y bobl sydd wedi ei hadnabod ac sy'n byw'n hir yn fy ymwneud ag ysgolion. Bydd colled fawr ar ôl Bethan.

Diolchodd TaS i PL a chafwyd cyfnod byr o dawelwch i gofio am Bethan.

**3. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Parchg David Brownnutt o CYSAG/CYS RhCT, Hayley Jones o GYSAGau/CYS EAs, Paula Webber o Bwyllgor Gweithredol CCYSAGauC a PYCAG, y Cynghorydd Martin Palfreyman, y Cynghorydd Mansell Charles, a Mrs Helen Gibbon o Sir Gaerfyrddin, a Linda Maddock. Ni chofnodwyd unrhyw ymddiheuriadau eraill.

**4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, Zoom, 25 Hydref 2023**

Gwiriwyd y cofnodion.

**GWEITHREDU** : LJ i gadarnhau enwau llawn David a Jane.
**GWEITHREDU** : Ychwanegu Rhianydd James, Ceredigion at y rhestr o fynychwyr

Gyda'r cywiriadau uchod wedi eu gwneud, cynigiodd EE ac eiliodd RS fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r hyn a ddywedwyd yn y cyfarfod diwethaf. Bydd TaS yn llofnodi'r cofnodion ac yn eu hanfon at AP i'w ffeilio.

**5. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.**

Ymdrinnir ag unrhyw faterion sy'n codi ar yr agenda hon neu maent yn cael eu dilyn i fyny ar hyn o bryd.

**6. Materion Llywodraeth Cymru [LlC]**

Rhoddodd RS y diweddariad canlynol gan Lywodraeth Cymru:
Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 29 Tachwedd 2023. Yn bresennol roedd RS, LJ a TaS o Gymdeithas CYSAGau Cymru a John Pugsley (JP), Kerry Davies (KD) a Caitlin Doyle (CD) o LlC.

Tair prif eitem ar yr agenda:
**1) Diweddariadau o gwestiynau CCYSAGauC a anfonwyd ymlaen llaw:**
- Cais am ddiweddariad ar yr adolygiad maes llafur cytunedig a gynhaliwyd gan CCYSAGauC ar ran Llywodraeth Cymru

Mae LlC wedi bod mewn cysylltiad â sawl CYSAG/CYS ers yr adolygiad anffurfiol ac mae'n cynnal trafodaethau gydag ALlau lle codwyd pwyntiau yn yr adolygiad. Diolchodd LlC i CCYSAGC a'r aelodau a gynhaliodd y gwaith ar yr adolygiad. Mae'r drafodaeth hon am y maes llafur cytunedig bellach wedi cau ac yn nwylo LlC.
- Cwestiwn ar y diffiniad o grefydd yn y crynodeb cyfreithiol ar Hwb

Darparodd LJ y cyd-destun; mae'r drafodaeth hon yn dilyn ymlaen o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd gyda LlC a CCYSAGauC lle'r oedd Lloyd Hopkin yn bwriadu siarad â'r gwasanaethau cyfreithiol. Cadarnhaodd KD fod trafodaeth fewnol wedi'i chynnal gyda'r gwasanaethau cyfreithiol ac y bydd y canlyniad yn cael ei rannu gyda CCYSAGC. Nid oedd diweddariad ysgrifenedig gan LlC wedi'i dderbyn adeg y cyfarfod hwn.
- Diweddaru adolygiad o'r Adroddiadau Blynyddol

Cwblheir yr adroddiadau blynyddol hyn gan bob CYSAG/CYS. Cadarnhaodd LLC nad yw wedi cwblhau unrhyw waith ar yr adroddiadau blynyddol o ran addasiadau i'r cwricwlwm newydd. Mae LlC wedi gofyn i CCYSAGauC a PYCAG anfon manylion at KD a JP ynghylch pam fod angen adolygiad o'r adroddiadau blynyddol.

Y camau nesaf i Bwyllgorau Gwaith CCYSAGauC a PYCAG fydd cydweithio i lunio ymateb i gyfiawnhau'r angen i edrych ar yr adroddiadau blynyddol.

**2) Argyfwng recriwtio**

a) Gostyngiad yn y niferoedd sy'n cymryd Astudiaethau Crefyddol ar lefel TGAU a Safon Uwch.
b) Gostyngiad israddedigion Addysg Grefyddol.
c) Lleihad yn niferoedd y cyrsiau AGA, a'r cymhwyster sylfaen CGM y mae CCYSAGauC wedi bod mewn trafodaethau yn ei gylch gyda Cymwysterau Cymru.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn cyn i Gymwysterau Cymru ryddhau canlyniadau ei ymgynghoriad a chyhoeddi ei benderfyniadau.

- Awgrymodd GW y dylai CCYSAGauC a PYCAG gysylltu â Kevin Palmer (KP) gyda'u pryderon. Mae KP yn goruchwylio Addysg Gychwynnol Athrawon o fewn Llywodraeth Cymru.
- Cadarnhaodd LlC nad yw'n ymwneud â chymwysterau na nifer y cofrestriadau. Dywedodd LlC mai dewis ysgol yw pa gymwysterau sy'n cael eu cwblhau gan ddysgwyr. O ran y cymhwyster sylfaen CGM, cynghorodd LlC CCYSAGauC i gysylltu â Cymwysterau Cymru sy'n gorff annibynnol. Mae LlC hefyd yn cyfarfod â Cymwysterau Cymru a chynigiodd awgrymu bod Cymwysterau Cymru yn aros tan ar ôl yr ymateb i'r ymgynghoriad i siarad â rhanddeiliaid CCYSAGauC a PYCAG. Wedi hynny cyheoddwyd yr ymgynghoriad ym mis Ionawr.
- Mae CCYSAGauC wedi cyfarfod â Cymwysterau Cymru a bydd hyn yn cael ei adrodd yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwn.
- Mae cyfarfod gyda Kevin Palmer a CCYSAGauC bellach wedi'i drefnu ar gyfer 20 Mawrth i drafod pryderon CCYSAGauC.

**3) Cais i dynnu'n ôl ar sail grefyddol yn seiliedig ar ddau ymholiad o ran CGM a nofio**
- Rhannodd LJ y cyd-destun, a chafodd ei drafod yn drylwyr.
- Gan nad yw LlC wedi clywed gan benaethiaid yn uniongyrchol fod hyn yn broblem, nid yw LlC yn ei weld fel mater arwyddocaol ac ni fyddai'n ystyried darparu arweiniad. Awgrymir fod Penaethiaid i barhau i gael cyngor gan ymgynghorwyr a swyddogion cymorth ym mhob ALl.
- Gyda'r ymholiad nofio, dywedodd LlC fod hwn yn fater i dîm iechyd a lles LlC. Dywedodd LlC mai'r adran Maes Dysgu a Phrofiad o fewn Llywodraeth Cymru ddylai fod y pwynt cyswllt cyntaf yn hytrach nag asiantaethau eraill fel Nofio Cymru.
- Mae CCYSAGauC yn derbyn ceisiadau am gymorth mewn perthynas â'r hawl i dynnu'n ôl o CGM. O ganlyniad i'r cyfarfod hwn, nod CCYSAGauC yw cadw cofnodion o'r ceisiadau hyn gyda'r adborth cyfatebol. Os derbynnir ail ymholiad, byddai CCYSAGauC yn gallu cynnal cysondeb yn yr adborth a ddarperir.

**4) Adnoddau dysgu proffesiynol**
- Dyma'r adnoddau y mae CCYSAGauC yn eu datblygu ochr yn ochr â LlC.
- Gofynnodd CCYSAGauC am ddiweddariad ar ymrwymiad LlC i fodiwlau ychwanegol a'r tri modiwl presennol sy'n dal i gael eu datblygu.
- Cydnabu LlC fod yna gyfyngiadau cyllidebol a fydd yn effeithio ar y gwaith y gellir ei gomisiynu.
- Pwysleisiodd CCYSAGauC pa mor ddefnyddiol oedd Rachael Hicks (RH) o LlC. Mae Kerry Davies am gysylltu â Rachael Hicks i gael syniad cliriach o'r adnoddau sy'n anghyflawn ac yn aros i gael eu cwblhau a beth sy'n bosibl i'w gwblhau. Mae diweddariad, bydd hyn yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod.
- Fe wnaethom rannu gwybodaeth am y gynhadledd sydd i ddod ac integreiddio'r Gweinidog Addysg yn y gynhadledd. Bydd hyn yn cael ei drafod yn ein cyfarfod nesaf gyda LlC.

- RT: A oes unrhyw wybodaeth am benodiad newydd ar gyfer mis Ionawr a'r adran sy'n cael ei harwain gan Mr George i gynhyrchu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd?
- RS: Na, hyd nes y bydd LlC yn cynnal adolygiad o'r adnoddau ar Hwb. Awgrymwn i ni godi hyn yn y cyfarfod nesaf. Mae'n ddyddiau cynnar o hyd ynglŷn â'r penodiad hwn.
- KE: Diolchodd i CCYSAGC am fynd â'r cwestiynau i LlC. Mae'n ymddangos bod diffyg penderfyniadau pendant gan LlC - mae'n bwysig bod CGM yn cael ei sefydlu'n iawn yn ein hysgolion ac mae'n siomedig bod oedi.
- RS: Mae hi bob amser yn her gweithio gyda sefydliad mawr gyda phobl amrywiol sydd â gwahanol gyfrifoldebau. Cadarnhaodd RS y bydd CCYSAGauC yn parhau i wthio ei hagenda gyda LlC ac i ailedrych ar faterion, pan fo angen, er mwyn i LlC gyflawni ei hymrwymiad.
- RBU: Gan fy mod yn newydd i'r cyfarfod hwn hoffwn gael gwell dealltwriaeth o'r gweithrediadau. Pam fod yna dri chynrychiolydd CCYSAGC yng nghyfarfodydd Llywodraeth Cymru?
- RS: Mae gan CCYSAGauC Bwyllgor Gweithredol. Pan fydd cyfarfodydd allanol, rydym yn sicrhau bod cynrychiolydd o'r Pwyllgor Gwaith yn bresennol, sef Cadeirydd CCYSAGauC fel arfer, cynrychiolydd PYCAG ac unigolion eraill sydd ar gael sydd â'r arbenigedd yn y maes i'w drafod.

**GWEITHREDU:** Yng nghyfarfod nesaf LlC, CCYSAGC i ofyn a oes unrhyw wybodaeth am benodiad newydd ar gyfer mis Ionawr a'r adran sy'n cael ei harwain gan Mr George i gynhyrchu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd.

## 7. Adnoddau Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol

Cyfarfu TaS ac LJ â chydweithiwr yn LlC, Rachael Hicks (RH) ar y 31 Ionawr 2024. Roedd RH yn gallu cadarnhau y bydd y rhestr chwarae newydd ar gyfer llywodraethwyr ysgol ar gael ar Hwb yn fuan. Mae mewn ciw yn aros i'w gyhoeddi.

Mae TaS ac LJ wedi cefnogi RH i brosesu'r tair rhestr chwarae sgiliau trawsgwricwlaidd trwy'r grŵp cyfeirio a gwneud y diwygiadau angenrheidiol. Mae'r tair rhestr chwarae hyn bellach gyda thîm Hwb sy'n gweithio ar gwestiynau heb eu hateb ar degwch yn y Gymraeg.

Mae dwy restr chwarae arall ar y gweill sydd angen rhywfaint o waith 1) CGM yn y Dyniaethau a 2) CGM ac Addysgeg. Y gobaith yw y bydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu i CCYSAGC gefnogi datblygiad terfynol y ddwy restr chwarae hyn gan fod CCYSAGauC yn teimlo eu bod yn hynod ddefnyddiol i ymarferwyr ledled Cymru. Mae CCYSAGauC yn aros am gadarnhad gan RH i roi sêl bendith i ddatblygiad terfynol y ddwy restr chwarae.

## 8. Cynhadledd CCYSAGauC

Rhannodd TaS gyflwyniad yn rhoi diweddariad ar gynhadledd CCYSAGauC. Mae CCYSAGauC yn gweithio mewn partneriaeth â PYCAG. Ariennir y gynhadledd yn llawn gan CCYSAGauC. Mae am ddim i bob CYS sy'n aelod, ac i'r ymarferwyr hynny sy'n gweithio yn yr awdurdodau lleol cyfatebol.

Nodau'r gynhadledd yw:
- Dathlu crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) yn y Cwricwlwm i Gymru
- Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol sylweddol i'n Haelodau CYS a'u hysgolion
- Cynnig cyfleoedd i godi a thrafod materion sy'n wirioneddol bwysig i CGM yng Nghymru
- Creu cysylltiadau a rhannu mewnwelediadau ledled Cymru.

Fformat y gynhadledd:
- Cyfres o seminarau diwrnod cyn ac ar ôl y gynhadledd ar-lein (tymor yr haf)
- Diwrnod y Gynhadledd, Prifysgol Wrecsam ar 13 Mehefin 2024.

Anogodd TaS aelodau CCYSAGauC i barhau i roi cyhoeddusrwydd mor eang â phosibl i'r digwyddiad er mwyn i gynifer o bobl â phosibl elwa ar y cyfle dysgu proffesiynol hwn. Mae'r manylion ar gael ar hafan gwefan CCYSAGauC a'r ddolen i archebu lle ar gyfer diwrnod y gynhadledd yw https://forms.office.com/pages/responsepage.aspx?id=-DqPEA6XUUSU-gGFWgFoUuVbWoO7EM5EqaUPjo4xdRFUN1RNTEVTMElMUDFNUVraSzlYQ4jZPT

Rhannodd TaS raglen ddrafft diwrnod y gynhadledd a oedd yn cynnwys hyd yn hyn:

| | |
|---|---|
| **9.30** | Croeso (Neuadd William Aston) |
| **9.45 – 10.15** | Prif Araith 1 (William Aston Hall): Y Gweinidog Addysg.<br>Fideo'r gynhadledd: Gwerth CGM |
| **10.15 – 10.50** | Prif Araith 2 (Neuadd William Aston): Yr Athro Graham Donaldson – mapio'r daith |
| **11.00 – 12.00** | Gweithdai: arfer sy'n dod i'r amlwg mewn CGM (3 sesiwn gyfochrog)<br>a. Dysgu gyda hanes am oddefgarwch crefyddol a heddwch: CGM a'r prosiect RETOPEA<br>b. Gwyddoniaeth a CGM (cynradd)<br>c. Enghraifft o arfer sy'n dod i'r amlwg (i'w gadarnhau) |
| **12.00 – 12.45** | Cinio |
| **12.45 – 13.35** | Trafodaeth banel: Plwraliaeth a CGM (Neuadd William Aston) |
| **13.40 – 13.50** | Prif siaradwr 3 (Neuadd William Aston) Esgob Llandaf, y Gwir Barchedig Mary Stallard: Arwyddocâd CGM i bobl ifanc (Ffilm) |
| **14.00 – 15.00** | Gweithdai: arfer sy'n dod i'r amlwg mewn CGM (3 sesiwn gyfochrog) |

a. Ysbrydoli pobl ifanc i ddilyn TGAU / Lefel A ac astudio CGM ymhellach.
b. Enghraifft o arfer sy'n dod i'r amlwg (i'w gadarnhau)
c. Athroniaeth i Blant (P4C) yn CGM

**15.05 – 15:30** Geiriau cloi ac agor y Cyfarfod Blynyddol (Neuadd William Aston)

Mae'r seminarau ar-lein: cyn diwrnod y gynhadledd fel a ganlyn:
Seminar 1: (23/04/24, 16.30 - 18.00) - Cyflwyniad i CYS / CYSAG: Beth sydd angen i chi ei wybod?
Seminar 2: (30/04/24, 18.30 - 19.30) - Sut olwg sydd ar CGM yn y lleoliad blynyddoedd cynnar?
Seminar 3: (07/05/24, 18.30 - 19.30) - Datblygu empathi trwy stori yn y lleoliad meithrin.
Seminar 4: (14/05/24, 16.30 - 18.00) - Nesáu at gynllunio CGM: Ystyried y Canllawiau CGM
Seminar 5: (21/05/24, 16.30 - 18.00) - Materion sensitif yn CGM: Gwrthdaro

Mae'r seminarau ôl-gynhadledd yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd.

Dolen gofrestru seminar ar-lein:
https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=-DqPEA6XUUSU-gGFWgFoUuVbWoO7EM5EqaUPjo4xdRFUOE1BQlRFM1c3V0NFSElTM0pWVjZLUUU0Ry4u

**TaS:** Unrhyw gwestiynau sydd gennych neu unrhyw beth y gall CCYSAGauC ei wneud i hwyluso neu ddarparu gwybodaeth am y gynhadledd, cysylltwch â ni.

**GWEITHREDU:** Mae'r cyflwyniad hwn i'w anfon at aelodau CCYSAGauC gyda dolenni cofrestru wedi'u cynnwys.

**9. Cymwysterau**

- **Cymwysterau Cymru (CC)**

LJ: Mae CC wedi cyhoeddi ei adroddiad ymgynghori, sy'n cynnig esboniad manwl o'r penderfyniadau y maent wedi'u gwneud ar gyfer cymwysterau 14 i 16 a fydd yn sefyll ochr yn ochr â'r cymwysterau TGAU. Y prif benderfyniad y mae CCYSAGauC am dynnu sylw'r pwyllgor hwn ato yw penderfyniad Cymwysterau Cymru i beidio â bwrw ymlaen â chymhwyster sylfaen annibynnol mewn CGM. Cafwyd peth siom a dryswch i'r penderfyniad hwn, yn enwedig gan fod 61% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi cymhwyster annibynnol i CGM.

Un o'r rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd yn yr adroddiad gan y rhai nad oeddent o blaid cymhwyster annibynnol oedd nad oedd CGM yn addas ar gyfer cael ei asesu trwy gymhwyster ffurfiol. Credaf y byddai llawer ohonom yn gwrthbrofi'r pwynt hwn, yn fy marn broffesiynol i ac fel aelod allweddol o'r tîm a ddrafftiodd y canllawiau CGM, gellir ei asesu drwy gymwysterau ffurfiol. Dyma sgwrs y gall CCYSAGauC ei chael gyda Cymwysterau Cymru wrth i ni symud ymlaen.

Mae CC wedi ychwanegu tair uned sgiliau bywyd newydd at y cynigion yn lle hynny. Ac maen nhw'n dweud y bydd y rhain yn rhoi cyfleoedd i ystyried ac archwilio nifer o'r pynciau CGM a nodir yn y canllawiau cwricwlwm. Bydd canolfannau'n gallu dewis i ba raddau y maent yn ymgorffori cyflwyno'r unedau hyn er mwyn bodloni eu gofynion statudol. Bydd dysgwyr hefyd yn gallu dewis testunau sy'n gysylltiedig â CGM ar gyfer eu cymhwyster prosiect personol. Darperir cyfleoedd pendant o fewn y cynnig ehangach sydd â photensial, ond mae'n mynd i ddibynnu ar y penderfyniadau a wneir ar lefel ysgol leol ynghylch a fydd dysgwyr yn gallu ennill cymhwyster ar gyfer CGM gorfodol. Fel y soniodd RS yn gynharach, cyfarfu swyddogion CCYSAGauC â chydweithwyr o Cymwysterau Cymru cyn cyhoeddi'r adroddiad, i wrando ar y rhesymeg ac i geisio deall y penderfyniad. Roedd yn gyfarfod cadarnhaol a bydd CCYSAGauC yn parhau i siarad â Cymwysterau Cymru ac yn eu cefnogi i sicrhau cymaint ag y gallwn, y bydd yr unedau hyn yn briodol ac yn darparu cyfleoedd cyfoethog ac ystyrlon i CGM sy'n ystyried y canllawiau a'r meysydd llafur cytunedig yng Nghymru.

**CAM GWEITHREDU** : Os oes unrhyw beth yr hoffai CYS i ni ei godi gyda Cymwysterau Cymru yn y cyfarfodydd hyn, a fyddech cystal â hysbysu CCYSAGauC yn ysgrifenedig drwy e-bost naill ai i mi neu i'n hysgrifennydd, AP.

- **Cymhwyster cydraddoldeb ac amrywiaeth (NCFE) / Agored Cymru – Archwilio bydolygon**
  - Bydd y cymhwyster Cydraddoldeb ac Amrywiaeth trwy NCFE a chymhwyster Archwilio Byd-olwg Agored Cymru ill dau yn parhau tan fis Medi 2027. Ond ym mis Medi 2027, ni fyddant yn bodoli mwyach. Bydd proses dendro ar gyfer unedau'r gyfres sgiliau, a bydd NCFE ac Agored Cymru yn gallu gwneud cais am gontractau i ddarparu'r cymwysterau ar gyfer yr unedau CGM. Gan fod llawer o'n hysgolion yn cynnig eu dysgwyr ac yn gweithio'n galed iawn i ddarparu adnoddau ar gyfer y cymwysterau hyn, mae'n gadarnhaol y gallai Agored Cymru a NCFE barhau i gymryd rhan.
  - Ni fwriedir i'r unedau CGM arfaethedig yn y gyfres sgiliau hon gefnogi'r holl ganllawiau statudol yn y maes hwn, maent yn cynnwys ffydd a chredoau yn y gymuned leol, dewisiadau moesegol, a gwerthoedd am oes. Bydd CCYSAGauC yn cyfarfod â Cymwysterau Cymru yn rheolaidd i'w cefnogi gyda'r gyfres sgiliau.
  - O ran dysgu 14 i 16, ac mewn perthynas â chymwysterau, mae ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar agor ar hyn o bryd ar y canllawiau statudol drafft i ddysgwyr 14 i 16: https://www.llyw.cymru/dysgu-14-16- dan-gwricwlwm-cymru .
  - Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 8 Mai 2024. Mae amser i'ch CYS ymateb neu gallwch ymateb yn bersonol.
  - Yr unig beth yr ydym am ei wneud yw tynnu sylw at adran 5.12 ar y dyniaethau sydd ar dudalen 16 o'r canllawiau drafft, sy'n dweud y canlynol: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, rhaid i ysgolion barhau i ddarparu addysg CGM i bob dysgwr ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn unol â gofynion y Ddeddf a chanllawiau CGM. Fodd bynnag, mae hyn ar wahân i'r gofynion i sicrhau dysgu yn y maes hwn. Nid oes angen i'r dysgu hwn arwain at unrhyw gymhwyster penodol. Mater i ysgolion fydd cynllunio'r dull mwyaf priodol i ddiwallu anghenion eu dysgwyr'. Teimlai swyddogion CCYSAGauC ei bod yn gadarnhaol fod CGM yn cael ei gynnwys yn y canllawiau ac yn cael ei amlygu fel pwnc gorfodol y mae'n ofynnol i ysgolion ei addysgu hyd at 16 oed.
  - KRU **:** Nid yw CC wedi gwneud penderfyniadau ar bob cymhwyster a dyna pam mae'r polisi dynodi yn bwysig. Felly, os oes gennych ddymuniadau penodol, neu bethau y credwch y dylem eu gwybod, mewn perthynas â chymwysterau amrywiol, cwblhewch yr ymgynghoriad a bydd hyn yn llywio ein penderfyniadau o ran cymwysterau presennol ('Ein Dull Arfaethedig o Ddynodi 14-16' - https://dweudeich dweud.cymwysterau.cymru/ein-dull-arfaethedig-i-ddynodi-cymwysterau-14-16 Dyddiad Cau: 14 Mai 2024). I roi'r cyd-destun ichi, roedd yn rhaid datblygu'r TGAU newydd, mewn Astudiaethau Crefyddol, er enghraifft, oherwydd y cwricwlwm newydd a chawsom y dasg o ddatblygu TGAU a wnaed ar gyfer Cymru i ddelio â'r cwricwlwm. Mae llawer o gymwysterau yn bodoli nad ydynt yn cael eu gwneud ar gyfer cymwysterau Cymru felly dyna pam y bu angen inni gyfeirio'n ôl a dyna pam y mae'r ymgynghoriad yn bwysig, felly os oes gennych farn benodol ar y cymwysterau presennol nad ydynt yn gymwysterau TGAU yn arbennig, cwblhewch yr ymgynghoriad hwnnw a'i rannu gyda chydweithwyr hefyd.
  - Diolchodd TaS i KRU am ei chefnogaeth a'i gwaith gyda CCYSAGauC trwy gydol y broses hon wrth ddatblygu cymwysterau newydd.
  - MM : Cwestiwn i LJ - o ble oeddech chi'n dyfynnu pan wnaethoch chi sôn ei bod hi'n dal yn orfodol i ysgolion fod yn cyflwyno CGM i flwyddyn 10 ac 11 hyd yn oed pan nad oes arholiad cymhwyster. Mae'n ddefnyddiol i ysgolion ddefnyddio'r cyswllt hwnnw i gyflwyno i uwch reolwyr.
  - LJ: Mae hyn yn uniongyrchol o'r canllawiau drafft yr ymgynghorwyd arnynt ar gyfer 14 i 16 oed a elwir yn ganllawiau statudol drafft i ddysgwyr 14 i 16 oed.
  - RB: Mae'r penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â chymhwyster annibynnol yn benderfyniad llym o'n safbwynt ni. A oeddech chi'n teimlo bod hwn yn benderfyniad gwleidyddol a oedd yn anwybyddu'n llwyr yr holl adborth o'r ymgynghoriad? Ydych chi'n meddwl bod angen i CCYSAGC newid ei strategaeth wrth arfer ei ddylanwad yn y maes hwn o'r cwricwlwm? Roeddwn yn ffodus iawn yn ddiweddar i gael gwahoddiad i'r fforwm penaethiaid cynradd lleol i siarad am CYSAG. Yn ddiddorol ddigon, dim ond un person oedd wedi darllen adroddiad cynhwysfawr CYSAG.
  - LJ: Ni allaf ateb eich cwestiwn cyntaf ynghylch a oedd yn benderfyniad gwleidyddol ond mae CCYSAGauC yn meddwl nad oedd yn benderfyniad gwleidyddol. Roedd yn gyfarfod

cadarnhaol gyda CC. Gwrandawodd CCYSAGauC ar y rhesymau pam y daethpwyd i'r penderfyniad er ei bod yn bosibl nad ydym yn cytuno â'r penderfyniad terfynol. Efallai bod hynny'n rhywbeth y gallech chi ei godi gyda CC o'ch CYSAG lleol.
Fel yr ymgynghoyrdd ar gyfer Wrecsam, rydym yn edrych ar sut i annog ysgolion i fuddsoddi yn eu hadrannau AG a CGM. Nid yw'n hawdd chwilio am atebion gwahanol. Mae fy mhresenoldeb yng nghyfarfodydd Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd Wrecsam, a'r Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd wedi helpu. Mae hyn yn rhywbeth y gallai awdurdodau lleol a CYSau eraill ystyried ei wneud eu hunain. Efallai y bydd angen i CCYSAGauC ystyried strategaeth newydd ac mae hyn yn rhywbeth y gallai'r Pwyllgor Gwaith ei drafod.

- KRU: Mae Cymwysterau Cymru yn gorff annibynnol. Gwneir y penderfyniad yn eithaf clir yn yr adroddiad penderfyniadau ynghylch pam na chafodd Cymwysterau Cymru gymhwyster CGM annibynnol. Roedd yn benderfyniad anodd, mae sgyrsiau gyda CCYSAGauC wedi bod yn parhau. Mae CC hefyd yn ymwybodol o faterion eraill yn y gofod hwn a'n bod yn dal i greu cymwysterau sy'n gysylltiedig â CGM ond nid cymhwyster sy'n CGM yn unig. O ran sefyllfaoedd parhaus, mae mwy o waith gan Cymwysterau Cymru i egluro ein rôl, ac efallai'r gwahaniaethau rhwng gofynion y cwricwlwm a'r gofynion, a all fod yn eithaf technegol, ond sy'n gysylltiedig â chymwysterau a sut y cânt eu creu. Argymhellwyd bod Cymwysterau Cymru yn rhoi mwy o wybodaeth, mwy o gyd-destun a mwy o wybodaeth gefndir i CCYSAGauC.
- LB: Nid wyf yn sicr pam na fyddai'r cymwysterau sgiliau hyn yn cyd-fynd â'r gofynion gorfodol ar gyfer CGM. Sut y bydd ysgolion yn llwyddo i addysgu hyn os nad yw'n gymhwyster? Ac a fyddai'n golygu bod yr elfen orfodol yn cael ei gadael allan oherwydd nad yw'n rhan o'r cymhwyster? Os bydd yr elfen orfodol yn cael ei haddysgu fel un nad yw'n gymhwyster yn y pen draw, yna efallai na fydd yn cael ei chymryd mor ddifrifol gan ddisgyblion yn yr ysgol.
- TaS: Mae'r rhain i gyd yn bwyntiau pwysig iawn, a bydd hyn yn parhau ar agenda CCYSAGauC.

**CAM GWEITHREDU:** CCYSAGauC i ystyried strategaethau newydd i arfer ei ddylanwad.

**10. Beth mae Covid-19 yn ei ddatgelu i arbenigwyr addysg grefyddol yn Ewrop?**
Rhannodd TaS gyflwyniad byr ar brosiect ymchwil yr helpodd CCYSAGC ei hwyluso ar y cyd ag aelodau eraill o Fwrdd EFTRE. Bydd y cyflwyniad hwn yn cael ei ddosbarthu gyda'r cofnodion.

Cyflwynwyd canlyniadau'r ymchwil mewn nifer o gynadleddau yn 2023, gan gynnwys cynhadledd EFTRE yn Rhufain ym mis Awst. Mae nifer o erthyglau yn cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd mewn cyfnodolion rhyngwladol adnabyddus am addysg grefyddol.

Rhannodd AP ddolen i un o'r papurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n fynediad agored: 'Gwnaeth Covid i mi feddwl am ….Beth sy'n wirioneddol bwysig mewn addysg grefyddol: Prosiect ymchwil Ewropeaidd' : https://link.springer.com/article/10.1007 /s40839-024-00225-4

Mae erthygl arall yn y broses adolygu ar hyn o bryd ynglŷn â'r berthynas rhwng aflonyddwch cymdeithasol ac addysg grefyddol. Derbyniwyd crynodeb hefyd i ysgrifennu papur llawn ar gyfer rhifyn arbennig yn y *British Journal of Religious Education* ynghylch yr hyn y gall yr ymchwil hwn ei ddweud wrthym am dechnoleg ac addysg grefyddol. Yn ogystal, gwahoddwyd y grŵp ymchwil i gyflwyno erthyglau i gyfnodolyn Pwylaidd rhyngwladol a chyfnodolyn Groegaidd Rhyngwladol.

Mae CCYSAGauC eisiau rhannu'r ymchwil gyda chi i ddangos sut mae Cymru'n cymryd rhan mewn ymchwil sylweddol mewn addysg grefyddol ar lefel Ewropeaidd. Mae'n ennyn llawer iawn o ddiddordeb y tu allan i Gymru ar hyn o bryd. Byddai'n dda pe bai'n gallu ennyn rhywfaint o ddiddordeb yng Nghymru hefyd a chael cyhoeddusrwydd.

**11. Cyflwyniad PYCAG: *CGM gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol yn y dosbarth cynradd***
**Llywyddwyd gan Elizabeth Thomas, Cyfarwyddwr Addysg Taleithiol yr Eglwys yng Nghymru**

Rhoddodd ET gyflwyniad byr yn rhoi trosolwg o'r prosiect. Bydd copi o'r cyflwyniad yn cael ei ddosbarthu gyda'r cofnodion.

Cynhaliwyd y prosiect gyda'r nod o fod yn ddull ystafell ddosbarth ymarferol o ran sut y gallai gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol edrych er mwyn darparu cymorth ychwanegol i ysgolion, ac iddynt gyflwyno CGM yn y cyd-destun cynradd.

Yr arweinwyr tîm oedd Beccie Morteo (BM), Arweinydd Addysg Llandaf a Threfynwy a Jennie Downes (JD), Swyddog Ysgolion Llanelwy a oedd yn gweithio'n agos gydag ysgolion. Cydlynodd ET y prosiect a rhoddodd fewnbwn o'r ochr gyfreithiol. Bu Hayley Jones o EAS a Donna Graves o CSC hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm yn ystod y prosiect.

Soniodd ET mai trosolwg o'r prosiect oedd hwn ac y byddai cyflwyniad manylach yn cynnwys BM a JD ar gael yn yr haf.

Diolchodd T a S i ET a'r tîm a gymerodd ran am y darn gwerthfawr hwn o ymchwil.

Bydd yr ymchwil yn cael ei gynnwys fel rhan o seminarau ar-lein ôl-gynhadledd CCYSAGauC. Bydd ET a chydweithwyr yn darparu awr a hanner, a fyddai'n cynnwys amser i drafod ac archwilio hyn ymhellach.

**12. Estyn: cynlluniau arolygu 2024 – 2030**

Rhoddodd Aranwen Morgans-Thomas y diweddariad a ganlyn: Bydd taflen sy'n cynnwys trosolwg o'r gwaith a wnaed hyd yma ar gael ar ôl y cyfarfod.

**Mae'r ddogfen yn cynnwys:**
- Diweddariad ar y gwaith arolygu sydd wedi parhau yn ystod tymhorau'r hydref a thymor y gwanwyn.
- Diweddariad ar yr adroddiad blynyddol. Mae nifer o ddolenni cyswllt wedi'u cynnwys yn y dogfennau sy'n ymwneud â gwaith Estyn ym mhob sector yn ogystal â'r sector uwchradd y mae KRU yn canolbwyntio arno.
- O ran arolygu ar gyfer y dyfodol 2024 - 2030, mae gwaith peilot wedi'i wneud ar y fframwaith newydd, a fydd yn dod i rym ym mis Medi 2024. Bydd y cylch nesaf o arolygiadau yn dechrau ym mis Medi, a'r newidiadau i'n trefniadau presennol a fydd fel a ganlyn:
    - Yr egwyddor gyffredinol yw y byddwn yn darparu adborth a sicrwydd mwy rheolaidd. Bydd ail-gydbwyso gydag arolygiadau darparwyr unigol a'r system gyfan o wella addysg yng Nghymru.
    - Ein nod yw meithrin perthnasoedd adeiladol, bod yn ymatebol drwy hyblygrwydd, a sicrhau bod trefniadau yn gyflawnadwy ac yn gynaliadwy ledled Cymru.
    - O ran y trefniadau ar gyfer arolygiadau craidd o ysgolion a gynhelir ac Unedau Cyfeirio, datblygwyd hyn trwy waith ymgynghori a threialu. Mae'r prif benawdau wedi'u cynnwys yn y ddogfen. Bydd Estyn yn dychwelyd i gylch chwe blynedd ac yn lleihau nifer y meysydd arolygu o bump i dri.
    - Ein tri phrif faes arolygu fydd 1) addysgu a dysgu 2) gofal, cymorth lles a 3) arwain a gwella. Bydd y cyfnod rhybudd o 10 diwrnod yn cael ei gadw i roi digon o amser ar gyfer holiaduron ac i ddarparwyr lanlwytho dogfennaeth berthnasol.
    - Bydd rôl arolygwyr cymheiriaid yn cael ei chadw. Y rhain yw penaethiaid, dirprwy benaethiaid, penaethiaid cynorthwyol, sy'n ymarferwyr wrth eu gwaith ar hyn o bryd.
    - Byddwn hefyd yn ymgysylltu'n amlach â darparwyr. Ar hyn o bryd y bwriad yw cynnal ymweliadau interim. Bydd ysgolion yn cael arolygiad craidd bob chwe blynedd. Hanner ffordd drwy'r cylch hwn, bydd ymweliad byrrach interim a fydd yn canolbwyntio ar yr argymhellion o'r arolygiad craidd a'r cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud yn erbyn yr argymhellion hynny.
    - Mae Estyn yn parhau i dreialu ei ddulliau ar gyfer adborth ac adroddiadau. Mae'r adroddiad yn debyg iawn i'r adroddiadau presennol, o ran y naratif, ond rydym yn croesawu adborth os oes angen newidiadau.

- O ran arolygiadau 2024 - 2030, nid oes gennym unrhyw ddogfennaeth gyfredol yn fyw ar ein gwefan. Unwaith y byddwn yn cwblhau canfyddiadau ein gwaith arolygu peilot, byddaf yn diweddaru CCYSAGauC pan fydd y ddogfennaeth ar gael.

- Diolchodd TaS i Aranwen Morgans-Thomas am ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn bersonol ar-lein.

**GWEITHREDU** : LJ i drosi dogfen Estyn yn PDF i'w dosbarthu i bob CYS ar ôl y cyfarfod.

**13. Diweddariadau:**

\- **Adroddiad gan y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2024 (Tania ap Sion)**
Oherwydd cyfyngiadau amser ni chwmpaswyd yr eitem hon, er bod llawer o feysydd yn cael sylw ar yr agenda heddiw.

\- **CBAC**
Rhoddodd Christopher Owens yr adroddiad a ganlyn:

- Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd dau ddigwyddiad byw yn ystod hydref 2023, yng Nghaerdydd, a Llandudno. Eleni, roedd cyfarfod CADAG ychwanegol yng Ngogledd Cymru. Mae'r holl ddeunyddiau ar gael ar wefan CBAC.
- Mae'r ffigurau mynediad eleni i'w cwblhau ym mis Mawrth. Ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch, mae'r ffigurau'n sefydlog eleni. Fodd bynnag, mae gostyngiad parhaus yn y nifer sy'n cofrestru ar gyfer cyrsiau byr fel y byddem yn ei ddisgwyl.
- Ar hyn o bryd , mae CBAC yn parhau i weithio ar y fanyleb newydd ar gyfer y cymhwyster newydd. Y cynllun presennol yw y bydd y fanyleb newydd gyda Deunyddiau Asesu Enghreifftiol, ar gael ym mis Medi, a'r arholiad cyntaf ym mis Medi 2026. Bydd y deunyddiau ar gael ym mis Medi 2024 i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2025. Felly i bob pwrpas, bydd gan ysgolion amser eithaf hir i baratoi.
- I gefnogi hynny, bydd 12 digwyddiad Dysgu Proffesiynol cenedlaethol ledled Cymru. Bydd hyn yn nhymor y gwanwyn, Chwefror, a Mawrth 2025. Mae'n bwysig bod athrawon AC yn archebu eu lle ar y digwyddiadau penodol hyn. Mae'r awdurdodau lleol yn cau'r ysgolion ar y diwrnodau hyfforddi yma. Mae'n gyfle i bob athro Astudiaethau Crefyddol yng Nghymru gael hyfforddiant. Ni fydd y canllawiau i athrawon ar gael gennym ym mis Medi 2024. Pan fydd athrawon yn dechrau addysgu ym mis Medi 2005, byddwn yn gwneud yn siŵr bod canllawiau manwl ar gyfer addysgu wedi'u cynhyrchu gan CBAC.
- LJ: Rwyf yn ymwybodol bod y gwaith o ddatblygu cymhwyster yn cael ei wneud gan ddefnyddio proses gydadeiladol. Un o'r cwestiynau a ofynnwyd i mi yw, pan fydd yr ysgolion yn derbyn y manylion cymhwyster hwn ym mis Medi 2024, ai dyna fydd y fersiwn derfynol? A fydd unrhyw ymgynghori pellach?
- CO: Bu ymgynghori trwy'r holl ffordd yn y cam cychwynnol. Er enghraifft, mae gennym grŵp cynghori pwnc sy'n cynnwys pobl sydd wedi edrych ar ddatblygiad y fanyleb. Bydd y fanyleb yn mynd i Gymwysterau Cymru a fydd yn penderfynu a yw'r fanyleb yn addas i'r diben. Ond mewn gwirionedd, y fanyleb a ddaw allan ym mis Medi i ysgolion fydd y cynnyrch gorffenedig. Felly fel bwrdd arholi, mae'n ofynnol i ni ddarparu'r fanyleb a'r Deunyddiau Addysgu Enghreifftiol, oherwydd mae gennym ddau arholiad a dwy dasg NEA fel rhan o'r fanyleb newydd. Pan ddaw hynny allan ym mis Medi, dyna fydd y drafft terfynol.
- MM : A fydd mwy o gyfleoedd i ni fod yn rhan o'r broses ac ymgynghori cyn y cynnyrch terfynol?
- CO: Byddaf yn gwirio eto a oes cyfle arall i athrawon roi adborth ond rwy'n amau hynny.

**GWEITHREDU:** CO i wirio a oes cyfle i gael adborth pellach a hysbysu CCYSAGauC.

\- **REC**
Rhoddodd LJ y diweddariad canlynol:

- Mae'r REC wedi cyfethol cynrychiolydd CGM arbenigol o Gymru i'w fwrdd. Mae hwn yn ddatblygiad pwysig. Lle dros dro yw hwn ar fwrdd y Cyngor am flwyddyn. Y gobaith yw y bydd yn cefnogi'r berthynas rhwng Cymru a Lloegr ac yn cynnig y cyngor a'r arweiniad arbenigol i'r REC ar CGM i gyflawni ei ddyletswyddau fel Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr.
- Mae pob un o gyfetholiadau Bwrdd y REC am flwyddyn a gall y bwrdd adnewyddu'r rhain am hyd at dair blynedd. Y gobaith yw y bydd y sefyllfa gyfetholedig hon yn parhau.

DRAFT

- Ymgeisiodd LJ am y swydd fel rhan o broses ddethol ffurfiol ac mae bellach yn aelod bwrdd arbenigol cyfetholedig CGM ar y Cyngor. Diolchodd LJ i Kathy Riddick, sydd hefyd yn aelod o fwrdd y REC gan fod KR wedi cynnig llais Cymreig mewn cyfarfodydd. Mae ein dwy wlad yn wahanol iawn, ond maent yn rhannu rhai o'r un materion o ran AG ac AC. Fel yr ydym eisoes wedi'i drafod yn y cyfarfod heddiw, mae gan y REC brosesau ar waith yn barod i fynd i'r afael â rhai o'r materion yr ydym yn eu rhannu, a sut y maent yn ymdrin â hwy yn Lloegr, ac maent yn awyddus i gefnogi Cymru. Mae'r bwrdd wedi gofyn sut y gall fod o wasanaeth i Gymru orau. Felly, mae LJ yn awgrymu bod pwyllgor gwaith CCYSAGauC yn rhoi hon yn eitem agenda yn ei gyfarfod haf ym mis Mai, fel y gall aelodau drafod pa gymorth, os o gwbl, sydd ei angen.

- Bydd TaS yn ei roi ar agenda'r Pwyllgor Gwaith a bydd y sgwrs yn parhau.

**GWEITHREDU** : Ychwanegu at Agenda cyfarfod mis Mai sut y gall REC gefnogi Cymru.

- **EFTRE**

Rhoddodd PL y diweddariad canlynol:

- Mae paratoadau ar y gweill ar gyfer y gynhadledd nesaf yn Budapest rhwng 21 – 24 Awst 2025. Mae'r deunyddiau ymchwil COVID a gyflwynwyd gan TaS a chydweithwyr yng nghynhadledd EFTRE (y cyfeiriwyd atynt yn gynharach) ar gael ar wefan EFTRE. Ceir hefyd gyflwyniad nodedig ar faterion dadleuol. Gyda'r gwrthdaro presennol yn y Dwyrain Canol, gallai hyn fod yn rhywbeth i gyfeirio ysgolion ato.
- Dywedodd TaS o brofiad personol (a ategwyd gan LJ ac AP a oedd hefyd yn bresennol) ei bod yn werth mynychu cynhadledd EFTRE.

- **MAGC**

Rhoddodd PM y diweddariad cryno a ganlyn:

- Mae MAGC yn ailystyried ei rôl yng nghyd-destun newidiol AG a'r Cwricwlwm i Gymru.

- **PYCAG 2.02.17**

Rhoddodd PL y diweddariad canlynol:

- Mae PYCAG yn cyfarfod fel arfer cyn prif gyfarfod CCYSAGauC, ond roedd yn rhaid ei drefnu ar gyfer yr wythnos ganlynol. Bydd cynrychiolydd PYCAG yn mynychu'r cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru (Kevin Palmer) ynghylch recriwtio athrawon y cyfeiriwyd ato'n gynharach. Yr ydym wedi trafod o'r blaen y deunyddiau o amgylch Palesteina/Israel a materion dadleuol, a gwn fod gan ymgynghorwyr fynediad at yr adnoddau hyn y gellir eu rhannu ag ysgolion.

- **Rhwydwaith Rhyng-ffydd**

Rhoddodd LJ y diweddariad canlynol:

- Gallaf gadarnhau bod y Rhwydwaith wedi gorfod gwneud y penderfyniad anodd i symud tuag at gau oherwydd penderfyniad Llywodraeth y DU i dynnu cyllid yn ôl oddi wrth y sefydliad.
- Derbyniodd CCYSAGauC ddatganiad newyddion gan yr IFN ar 8 Chwefror 2024 yn cyhoeddi'r penderfyniad. Derbyniwyd datganiad a gyhoeddwyd gan fwrdd IFN ar 24 Ionawr 2024 yn dilyn llythyr a gawsant ar 19 Ionawr gan yr Ysgrifennydd Gwladol, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS a oedd yn nodi ei fod yn tynnu'r cyllid a gynigiwyd yn ôl ym mis Gorffennaf 2023. Yn y datganiad, manylodd MR Gove ar ei bryderon fod gan y Rhywdwaith ymddiriedolwr sy'n aelod o Gyngor Mwslimaidd Prydain. Mae gennym ddolen i ddatganiadau Michael Gove ac ymateb cyd-gadeiryddion y Rhwydwaith os hoffai unrhyw aelodau eu darllen.
- Mae bwrdd yr IFN yn ddiolchgar i'r unigolion a'r sefydliadau niferus sydd wedi ysgrifennu at ASau a gweinidogion neu wedi llofnodi deisebau, wedi cyfrannu rhoddion ac mewn ffyrdd eraill wedi dangos cefnogaeth ddofn a gostyngedig yn aml i IFN yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n newyddion trist a siomedig iawn.
- RT: Tybiaf nad yw hyn yn effeithio ar y rhwydwaith Rhyng-ffydd yng Nghymru, oherwydd nid yw'n cael ei ariannu.
- LJ: Mae'n rhyddhad nad yw'n effeithio ar y rhwydwaith Rhyng-ffydd yng Nghymru. Nid yw'r sefydliad hwn wedi'i ariannu ac mae ganddo berthynas gadarnhaol â Llywodraeth Cymru.

Mynychais gyfarfod Rhyng-ffydd Gogledd Cymru yr wythnos diwethaf. Roedd yna gynrychiolydd o Gyngor Rhyng-ffydd Cymru yno a sicrhaodd bawb eu bod yn dal i redeg yn amlwg heb ddim arian gan eu bod wedi bod yn gwneud hynny ers blynyddoedd lawer. Yn amlwg, bu trafodaeth yn y cyfarfod hwnnw ar sut i gefnogi ein cydweithwyr a'n ffrindiau yn Lloegr a gweddill y DU. Bu sôn am ofyn i'n haelodau cynulliad a oedd ymrwymiad i barhau â deialog Rhyng-ffydd yng Nghymru.

- RB: Os yw Cymru wedi parhau i gael rhwydwaith rhyng-ffydd, onid yw'n bosibilrwydd y gallai barhau yn Lloegr?
- LJ: Rwy'n meddwl mai'r problemau sydd ganddynt yn Lloegr gyda'r rhwydwaith rhyng-ffydd yw bod ganddynt tua phedwar aelod o staff amser llawn a bod angen cyllid arnynt er mwyn ei gwneud yn bosibl iddynt wneud y gwaith. Mae'r gwaith sy'n digwydd yng Nghymru yn wirfoddol. Nid oes cymaint o waith yn cael ei wneud yng Nghyngor Rhyng-ffydd Cymru o'i gymharu â'r hyn y mae'r IFN yn ei wneud ar gyfer y DU. Nid yw'n ymddangos y bydd IFN UK yn rhedeg yn wirfoddol.

**14. Materion / ymholiadau lleol**

1. Cysylltu ag adborth RS o gyfarfod Llywodraeth Cymru am gefnogaeth i ysgolion sy'n delio â cheisiadau i dynnu'n ôl o CGM, e.e. mewn dathliadau tymhorol a'r cofnodion a gedwir gan CCYSAGC. Mae CYS Wrecsam wedi dechrau casglu'r cyngor sydd wedi'i gynnig i'w hysgolion lleol. Mae ganddo un astudiaeth achos eisoes, ac mae un arall wrthi'n cael ei datblygu. Mae'n ddefnyddiol cyfeirio at y rhain pan dderbynnir ymholiadau tebyg. Mae'n rhywbeth y gallai CYSau eraill a'u hymgynghorwyr ei ddatblygu hefyd. Gallai CCYSAGauC gydgasglu'r astudiaethau achos hynny a'u hadolygu, o bosibl eu rhoi ar gael i'w defnyddio'n ehangach ar y wefan.

**GWEITHREDU:** Gofynnodd TaS i LJ rannu'r astudiaeth achos hon gyda CCYSAGC.

2. Mae llawer o CGM creadigol a chyfoethog yn digwydd mewn ysgolion yng ngogledd ddwyrain Cymru. Mae rhai o'n hysgolion wedi codi'r mater o niferoedd is o ddysgwyr yn dangos diddordeb mewn astudiaethau crefyddol TGAU ac yn dewis gwneud hynny. Yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yn Wrecsam yw mynd i'r afael â hyn drwy gynnwys athrawon mewn deialog broffesiynol am atebion posibl. Mae gennym bryder gwirioneddol y bydd y mater penodol hwn o niferoedd yn gostwng yn effeithio ymhellach fyth ar staffio, yn enwedig ar adeg o doriadau difrifol yn y gyllideb i ysgolion.
Yn amlwg, mae llawer o resymau a all effeithio ar niferoedd TGAU mewn unrhyw bwnc, ond rhai o'r prif rai rydym wedi eu hadnabod yn lleol o ran CGM yw'r gwahaniaeth o ran amser a darpariaeth yng Nghyfnod Allweddol Tri ar gyfer CGM o gymharu â rhai o bynciau'r dyniaethau, niferoedd uwch o bobl nad ydynt yn arbenigwyr yn gorfod addysgu CGM yng nghyfnod allweddol tri, a hefyd diffyg dysgu proffesiynol a ddarperir yn yr ysgol ar gyfer y rhai nad ydynt yn arbenigwyr.
Mae'r ffactorau hyn yn aml yn arwain at rai dysgwyr ym mlwyddyn saith ac wyth heb ddod i gysylltiad ag athro AG arbenigol tan flwyddyn naw. Rwy'n credu bod hyn yn cael effaith ar niferoedd isel mewn TGAU, sydd wedyn yn cael effaith ganlyniadol ar staffio, ac effeithiau eraill hefyd.

Hoffai CCYSAGauC wybod a oes gan unrhyw un o'r CYSau eraill faterion tebyg mewn rhai o'u hysgolion. Gwn nad mater lleol Wrecsam yn unig ydyw ac nid yw ym mhob un o'n hysgolion. Y cwestiwn yw, sut y gallwn annog ein hysgolion i fuddsoddi mewn adrannau AG ac CGM pan fo cyllid yn gymaint o broblem?

**15. Gohebiaeth**

AP: Wedi derbyn pedair eitem o ohebiaeth:

1) Gan yr IFN y mae LJ eisoes wedi cyfeirio ato yn y diweddariad IFN

2) Mae Patricia Hannam, sy'n gadeirydd y grŵp llywio ar gyfer y prosiect canolfannau AG wedi anfon e-bost at Gadeirydd Cymdeithas CYSAGau Cymru i fynegi diddordeb mewn gweithio



DRAFT

gyda CCYSAGC drwy'r prosiect Canolfannau Addysg Grefyddol. Mae cyfarfod cychwynnol wedi'i drefnu.

3) Daeth e-bost i law oddi wrth Pam Evans, Prif Swyddog Gweithredol *Peace Mala* yn gofyn am y cyfle i archwilio'r posibilrwydd o weithio mewn partneriaeth gyda CCYSAGC. Bydd cyfarfod ar-lein cychwynnol yn cael ei drefnu.

4) Mae CYS Wrecsam wedi gofyn i CCYSAGauC godi gydag Estyn y defnydd o'r gair ‘costume’ mewn adroddiadau arolygu, wrth gyfeirio at wisgoedd crefyddol a diwylliannol y mae plant yn cael cyfle i'w gwisgo yn y dosbarth, pan fyddant yn archwilio credoau crefyddol. Mae'r gair ‘costume’ wedi tramgwyddo un o aelodau Sikhaidd y CYS. Mae CYS Wrecsam yn awgrymu mai gair mwy priodol i'w ddefnyddio yw 'gwisg’ / *outfit*. Mae aelodau CYS Wrecsam yn teimlo bod hwn yn ôl pob tebyg yn fater cenedlaethol yn hytrach nag un lleol yn unig a hoffent gael cefnogaeth gan CCYSAGC.

- AMT: Byddaf yn trosglwyddo'r wybodaeth honno yn ôl. Yn dilyn unrhyw adroddiad o leoliad ysgol, mae gan yr ysgol bum niwrnod i ymateb i unrhyw eiriad neu unrhyw wybodaeth sydd yn yr adroddiad, mae'r pum diwrnod hynny ar gael i wirio cywirdeb, ayb. Ond yn amlwg, mae hyn yn ôl pob tebyg wedi dod gan aelod o’r gymuned yn hytrach nag yn uniongyrchol o gymuned yr ysgol.

**16. Unrhyw fater arall (i’w gytuno cyn y cyfarfod gyda’r Cadeirydd)**

LJ: Mae llythyr trwy e-bost wedi'i anfon at bob CYS ynghylch enwebiadau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC. Os yw CYS yn dymuno enwebu unigolyn, mae'r profforma CYS a dderbyniwyd ar 6 Chwefror i'w dychwelyd i LJ erbyn 22 Mawrth. Bydd LJ yn anfon y rhestr enwebiadau at yr CYS yn ddwyieithog erbyn 26 Ebrill er mwyn gallu trafod enwebiadau yn eu cyfarfodydd tymor yr haf, mewn pryd ar gyfer y pleidleisio yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGC ar 13eg Mehefin (a gynhelir ar ddiwedd cynhadledd CCYSAGauC) . Mae dau le ar gael, un ar gyfer swydd yr is-gadeirydd ac un ar gyfer swydd aelod gweithredol. Mae LJ wedi derbyn dau enwebiad hyd yma.

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf (CCB) – Dydd Iau, 13eg Mehefin 2024, Wrecsam (Prifysgol Wrecsam)**

**GWEITHREDU:** Y dolenni yn y sgwrs i'w coladu a'u dosbarthu i'r aelodau.

Daeth TaS â'r cyfarfod i ben trwy ddiolch i CYS ac ALl Sir Gaerfyrddin am y croeso cynnes heddiw. Mae TaS yn edrych ymlaen at weld cymaint o bobl â phosibl yn y seminarau ar-lein ac ar ddiwrnod cynhadledd CGM. Diolchodd TaS i Sioned Jones am ei chyfieithiad, y cyflwynwyr a phawb sydd wedi cyfrannu.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.00pm**

DRAFT